**LC599**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio Atodlen 10 (cyffuriau nad ydynt i'w rhagnodi) ac Atodlen 11 (cyffuriau nad ydynt i'w rhagnodi ond mewn amgylchiadau penodol) i'r prif reoliadau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae tri mân wall drafftio a thynnir sylw'r Cynulliad atynt -

1. Nid yw'n briodol i gynnwys 'Rhif 2' yn y teitl am na wnaed unrhyw reoliadau blaenorol gyda'r un teitl yn 2003.
2. Dylai rheoliad 3 ddechrau fel hyn "Yn Atodlen 11 i'r prif reoliadau (cyffuriau...".
3. Dylai rheoliad 3(a)(i) ddarllen "Gronynnau Acetylcysteine".

Roedd y cyfreithiwr drafftio wedi mynd ati i gywiro'r pwyntiau hyn ond nid yw'r fersiwn honno o'r rheoliadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor (y dywedir mai dyma'r fersiwn a osodwyd) yn cynnwys y cywiriadau.

Er hynny, gellir cywiro'r pwyntiau hyn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

14 Ionawr 2003